Introduction

Disgrifiwyd Dawnsiau Llangadfan mewn llythyr gan William Jones, Llangadfan i Edward Jones, Bardd y Brenin, Llundain ar ddiwedd y 18fed ganrif. Mae'r llythyr bellach wedi'i storio yng nghasgliad llawysgrifau'r Llyfrgell Genedlaethol. Disgrifir tri dawns yn fanwl: Roaring Hornpipe, Aly Grogan a Lumps of Pudding. Mae'r dawnsiau, sydd ar gyfer set o dri chwpl, i gyd yn dilyn patrwm tebyg sy'n cynnwys tair adran, yr arwain, yr ochri a'r tro llaw. O fewn yr adrannau hyn mae cwpl gweithiol yn rhyngweithio â phob un o'r pedwar aelod arall o'r set. O'r tair dawns a ddisgrifir yn fanwl, Aly Grogan yw'r un byrraf, mwyaf sylfaenol. Mae'r ddwy ddawns arall yn cynnwys symudiadau ac amrywiadau ychwanegol i gyd-fynd â'u halawon hirach a mwy cymhleth.

Mae'r cyfarwyddyd canlynol ar gyfer Aly Grogan yn ganlyniad i waith helaeth gan aelodau Parti Dawns Aelwyd Aberystwyth, yn benodol Ian Hughes, Robin Huw Bowen a Janet Hardy yn y 1980au a'r 90au. Eu nod oedd gweithio o'r llawysgrif wreiddiol i greu cyfarwyddiadau ar gyfer y dawnsiau a fyddai mor ddilys â phosib (heb y fantais o deithio drwy amser). Perfformiodd y grŵp Aly Grogan yn ôl y cyfarwyddiadau hyn fel eu cyfraniad at y DVD "12 Dawns Werin Traddodiadol", © Cymdeithas Ddawns Werin Cymru 1995. Yn ystod y blynyddoedd canlynol, casglodd Dafydd Thomas y cyfarwyddiadau ar gyfer pob un o'r dawnsiau a rhai awgrymiadau eraill ar gyfer alawon eraill y soniodd William Jones amdanynt. Y cyfarwyddiadau hyn yw'r sail i'r rhai a roddir isod.

Mae tystiolaeth yn llythyr William Jones yn awgrymu bod traddodiad o herio grwpiau o ddawnswyr lleol i amrywio patrymau sylfaenol y dawnsiau i gyd-fynd â gwahanol alawon. Yr awgrym yw bod pob un o'r dawnsiau hyn wedi eu creu i gydweddu ag alaw benodol; daeth yr alaw yn gyntaf gyda'r patrymau dawns wedi'u haddasu i ffitio. O ganlyniad mae'n ymddangos yn rhesymol i fynnu bod y dawnsiau hyn yn cael eu dawnsio i'r alawon a roddir. Fodd bynnag, os oes amrywiadau o'r alaw ar gael, e.e. yn y modd leiaf neu gyda mân newidiadau mewn nodiant, yna gallent gael eu defnyddio fel ail alaw er mwyn lleihau'r blinder i'r cerddorion! Rhoddir dwy enghraifft o'r alaw gysylltiedig "Larry Grogan" yma at y diben hwn. Mae Sbonc Bogel yn awgrym ar gyfer y Rownd O gan nad oes dim yn cael ei roi yn y llawysgrif.

Rhagarweiniad

The Llangadfan Dances were described in a letter from William Jones, Llangadfan to Edward Jones, Bardd y Brenin, London in the late 18th century. The letter is now stored in the manuscript collection of the National Library of Wales. Three dances are described in some detail: Roaring Hornpipe, Aly Grogan and Lumps of Pudding. The dances, which are for a set of three couples, all follow a similar pattern composed of three sections, the leadings, the tracings and the turnings. Within these sections a working couple interacts with all four other members of the set. Of the three dances described in detail Aly Grogan is the shortest, most basic. The other two dances contain additional moves and variation to fit with their longer and more complex tunes.

The following instruction for Aly Grogan is the result of extensive work done by members of Parti Dawns Aelwyd Aberystwyth, specifically Ian Hughes, Robin Huw Bowen and Janet Hardy in the 1980s and 90s. Their aim was to work from the original manuscript to create instructions for the dances which would be as authentic as possible (without the benefit of time travel). The group performed Aly Grogan according to these instructions as their contribution to the DVD "12 Traditional Welsh Folk Dances", © The Welsh Folk Dance Society 1995. In the following years Dafydd Thomas collated the instructions for each of the dances and some other suggestions for other tunes which William Jones mentioned in passing. These instructions are the basis for those given below.

Evidence in William Jones's letter suggests that there was a tradition of challenging groups of local dancers to vary the basic patterns of the dances to fit with different tunes. The implication is that each of these dances was created to fit a specific tune; the tune came first with the dance patterns adjusted to fit. Consequently it seems reasonable to insist that these dances are danced to the given tunes. However if certain variations of the tune, e.g. in a minor key or with slight changes in notation, are available then they could be used as a B-tune in order to lessen the tedium for the musicians! Two examples of the variant tune "Larry Grogan" are given here for this purpose. Sbonc Bogel is a suggestion for the Round O since none is given in the manuscript

ALY GROGAN – Uned hir i dri chwpl

Cyfarch - setio ymlaen i'r dde a'r chwith, yna troi sengl yn ôl i le neu i safle newydd fel yn gymwys. Yr un fath gyda'r person newydd.
Plethi - chwe cham rîl i bob pleth.
B = Bachgen, M = Merch, C = Cwpl. Mae pob rhan: A, B1, B2 yn 8 bar o hyd.

RHAN 1 - YR ARWAIN - (RHAN Y BACHGEN)

1.1

A Arwain i fyny (yn cerdded pedwar cam) ac yn ôl (pedwar cam) dwywaith.
B1 Pleth y bechgyn. (B1 chwe cham rîl yna troi'r cymar dwy law)
(B2/B3 chwe cham rîl yn ôl i'w lle heb droi cymar)
B2 Pleth y merched. (M1 chwe cham rîl yna troi'r cymar dwy law)
(M2/M3 chwe cham rîl yn ôl i'w lle heb droi cymar)

1.2 - B1 a M3 YN GWEITHIO

A C1 a C3 yn cyfarch eu cymar yna B1 yn cyfarch M2 tra bod M3 yn cyfarch B2.
B1 B1 yn plethu rhwng M2 a M1, tra bod M3 yn plethu rhwng B2 a B3,
B1/M3 yn cwrdd ynghanol y set, troi llaw dde ac yn ôl i'w lle.
B2 Pawb i blethu ar ei ochr ei hun ac yna troi'r cymar dwy law.

1.3 - B1 a M1 YN GWEITHIO

A C1 & C2 yn cyfarch i mewn i'w gilydd, C2 yn castio i fyny i safle C1 tra bod
C1 yn troi a chroesi (afreolaidd) i safle C2, yna B1 yn cyfarch M3 tra bod M1 yn cyfarch B3.
B1 B1 a M1: pleth yn dechrau lawr a thu allan i M3 a B3 yna i fyny a thu allan i M2 a B2,
B1/M1 yn cwrdd ynghanol y set, troi dwy law hanner a chastio i lawr i…
B2 Pawb i blethu ar ei ochr ei hun ac yna troi'r cymar dwy law.

RHAN 2 - YR OCHRI - (RHAN Y FERCH)

2.1

A Ochri gyda'r cymar (ysgwydd dde), gan groesi a thoi dolen i'r chwith,
Ochri (ysgwydd chwith), gan groesi a throi dolen i'r dde yn ôl i'r lle gwreiddiol.
B1 Pleth y merched (C1 yn unig i droi dwy law ar y diwedd).
B2 Pleth y bechgyn (C1 yn unig i droi dwy law ar y diwedd).

2.2 - M1 a B1 YN GWEITHIO

A M1 yn cyfarch B3, (yn setio i ganol y set) tra bod B1 yn cyfarch M2.
C2 yn castio i fyny i safle C1 tra bod C1 yn troi a chroesi'n afreolaidd i safle C2,
M1 yn gwynebu i fyny i B2 ac yn cyfarch B2 tra bod B1 yn cyfarch i lawr i M3.
B1 * M1 yn plethu rhwng B2 a B3 tra bod B1 yn plethu rhwng M3 a M2,
B1/M1 yn cwrdd ynghanol y set, troi dwy law hanner a chastio i lawr i....
B2 Pawb i blethu ar ei ochr ei hun ac yna troi'r cymar dwy law.

*er bod y cyfeiriad yma yn dilyn patrwm y ddawns yn fwy cywir gyda M1 yn dechrau ei phleth i fyny o gwmpas B2, fe'i ddawnsir yn aml fel yn **1.3 B1** gyda B1 a M1 yn dechrau i lawr ac allan. Mae'r cyfarwyddiadau gwreiddiol yn aneglur.

2.3 - M1 a B3 YN GWEITHIO

A M1 yn cyfarch B2 tra bod B3 yn cyfarch M2 yna C1 a C3 yn cyfarch eu cymar.
B1 M1 yn plethu rhwng B2 a B1 tra bod B3 yn plethu rhwng M2 a M3,
M1/B3 yn cwrdd ynghanol y set, troi llaw chwith ac yn ôl i'w lle.
B2 Pawb i blethu ar ei ochr ei hun ac yna troi'r cymar dwy law.

RHAN 3 - Y TRO LLAW - (Y RHAN GROES)

3.1

A Pawb i droi llaw dde, unwaith a hanner i'r ochr afreolaidd (cyflym),
Pawb i droi llaw chwith, unwaith a hanner yn ôl i'w lle.

B1 Pleth groes, C1 yn unig i groesi, PAWB i droi dwy law ar y diwedd (C1 hanner, C2/C3 tro llawn).

B2 Pawb i blethu ar ei ochr ei hun. PAWB i droi dwy law ar y diwedd (C1 hanner, C2/C3 tro llawn),
C1 YN AFREOLAIDD.

3.2 - B1 a B3 YN GWEITHIO

A B1 yn cyfarch M3, tra bod B3 yn cyfarch M1 (C2 yn symyd yn ôl ychydig),
B1 yn cyfarch B2, tra bod B3 yn cyfarch M2.

B1 B1 a B3: pleth, B1 yn dechrau i lawr heibio M3 i'r chwith, o gwmpas M3 yna o gwmpas B2 i'r dde,
tra bod B3 yn dechrau i fyny heibio M1 i'r chwith,, o gwmpas M1 yna o gwmpas M2 i'r dde,
B1/B3 yn cwrdd yng nghanol y set a throi llaw dde† i ffurfio…

B2 Cylchoedd - B1/M1/M2 yn ffurfio'r cylch ar y pen, B3/M3/B2 y cylch ar y gwaelod,
Cylchu dwywaith o gwmpas i'r chwith, yna yn ol i le (C1 afreolaidd),
PAWB i droi cymar unwaith o gwmpas dwy law.

† Gall B1/B3 droi llaw chwith os mynnir gan bod dim cyfarwyddyd yn y gwreiddiol ond mae tro llaw dde yn rhedeg yn llyfnach o'r pleth i mewn i'r cylchoedd.

3.3 - B1 a B2 YN GWEITHIO

A C1 & C2 yn cyfarch eu cymar, yna pawb heblaw M1, yn troi i'w safle newydd:-
M2 i safle rheolaidd M1, B2 i safle rheolaidd M2, B1 i safle B2,
B1 yn cyfarch B3 tra bod B2 yn cyfarch M3.

B1 B1 a B2: pleth, B1 i lawr a thu allan i B3, o gwmpas B3 yna o gwmpas M1,
B2 i lawr a thu allan i M3, o gwmpas M3 yna o gwmpas M2,
B1/B2 yn cwrdd ynghanol y set a throi dwy law hanner ffordd i ffurfio...

B2 Cylchoedd (ochr yn ochr), - B2/B3/M1 a B1/M3/M2 (B1/B2 yn gwynebu 'wal' y marched) dwywaith o gwmpas i'r chwith, yna torri, a PHAWB yn ol i'w llefydd gwreiddiol a throi cymar o gwmpas unwaith dwy law.

ROUND O

Gellir cynnwys hwn wedi pob un o'r tri rhan o'r ddawns neu ar y diwedd yn unig.
Gellir ei ddawnsio i 'Sbonc Bogel' neu unrhyw jig 16 bar i'w chwarae AABB.

Gan ddechrau gyda'r cyplau mewn uned hir:

A 4 bar Pawb yn setio i'w cymar, yna pawb yn troi i'w safle newydd gan ffurfio cylch:-
C1 yn newid lle,
B2 yn symud allan ychydig
B3 yn symud i safle M3,
M3 i safle M2 (ychydig allan o'r set)
M2 i safle B3.
Y bechgyn i wynebu'r ferch ar eu chwith.

h.y.	hen safle	safle newydd
		M3
blaen	M1 M2 M3	B1 B3
yr uned	B1 B2 B3	M1 M2
		B2

4 bars Bechgyn yn symud cefn-gefn (ysgwydd chwith) gyda'r ferch ar y chwith iddynt.
B 4 bars Bechgyn yn troi y ferch ar y dde iddynt (eu cymar y tro yma) llaw dde unwaith a hanner o gwmpas.
4 bars Bechgyn yn symud ymlaen gan droi'r ferch nesaf unwaith o gwmpas llaw chwith, yn gorffen rhwng y ddwy ferch y buont yn eu troi.

A 4 bars Bechgyn yn symud cefn-gefn (ysgwydd dde) gyda'r ferch ar y dde iddynt.
4 bars Bechgyn yn symud cefn-gefn (ysgwydd chwith) gyda'r ferch ar y chwith iddynt.
B 4 bars Bechgyn yn troi'r ferch ar y dde (unwaith a hanner).
4 bars Bechgyn yn symud ymlaen gan droi'r ferch nesaf unwaith o gwmpas llaw chwith, yn gorffen rhwng y ddwy ferch y buont yn eu troi.
.

Yr un fath unwaith eto gan gerdded y tro chwith olaf o gwmpas eu cymar gwreiddiol yn ol i'w safleoedd gwreiddiol yn yr uned hir.

Sylwer bod y dynion bob amser yn symud gwrthgloc ymlaen i'r ferch nesaf, tra bo'r merched yn cadw eu safle.

Cydnabyddiaeth

Diolch i
Ian Hughes, Robin Huw Bowen a Janet Hardy am eu gwaith semenol i ddatblygu'r dawnsiau o'r llawysgrif gwreiddiol,
Dafydd Thomas am baratoi'r ddogfen helaeth gyda'r cyfarwyddiadau manwl,
Keith Floyd am drefniant y gerddoriaeth,
ac i Parti Dawns Aelwyd Aberystwyth am wirio'r cyfarwyddiadau.

Gethin Roberts © CDdWC 2018

ALY GROGAN – Longways set for 3 couples

Setting - set right & left advancing then turn single to place or new position as appropriate, repeat same to new person.
Heys - six reel steps for all heys.
M = Man, W = Woman, C = Couple. All sections: A, B1, B2 are 8 bars in length.

PART 1 - THE LEADINGS - ARWAIN - (THE MAN'S PART)

1.1

A All lead up (walking four steps) and back (four steps) - repeat
B1 Men's hey. (M1 six reel steps and turn partner two-handed)
(M2/M3 six reel steps to place - do not turn partners)
B2 Women's hey. (W1 six reel steps and turn partner two-handed)
(W2/W3 six reel steps to place - do not turn partners)

1.2 - M1 & W3 WORKING

A C1 and C3 set to partner then M1 sets W2 whilst W3 sets M2.
B1 M1 hey between W2 and W1, whilst W3 hey between M2 and M3,
M1/W3 meet in centre of set and turn right-handed returning to place.
B2 All hey on your own side and all turn partners two-handed.

1.3 - M1 & W1 WORKING

A C1 & C2 set in to each other, C2 cast up to C1 position whilst
C1 turn and change sides (improper) into C2 position, then M1 sets W3 whilst W1 sets M3.
B1 M1 and W1 Hey between starting down and outside W3 and M3 then up and outside W2 and M2,
M1/W1 meet in centre of set, turn two-handed half-way & cast down into…
B2 All hey on your own side and all turn partners two-handed.

PART 2 - THE TRACINGS - OCHRI - (THE WOMAN'S PART)

2.1

A All side right shoulder to partner, crossing over & turn looping left,
That again (left shoulder) returning to original place, looping right.
B1 Women's hey (C1 only turn two-handed at end).
B2 Men's hey (C1 only turn two-handed at end).

2.2 - W1 & M1 WORKING

A W1 sets M3, (setting in to centre of set) whilst M1 sets W2
C2 cast up to C1 position whilst C1 turn and cross improper to C2 position,
W1 face up to M2 and set to M2 whilst M1 sets down to W3.
B1 * W1 hey between M2 and M3 whilst M1 hey between W3 and W2,
M1/W1 meet in centre of set, turn two-handed half-way & cast down into....
B2 All hey on your own side and all turn partners.

*although this instruction is more technically correct with W1 starting her hey up around M2, it is frequently danced as for **1.3 B1** with both M1 and W1 starting down and out. The original instruction is ambiguous.

2.3 - W1 & M3 WORKING

A W1 sets M2 whilst M3 sets W2 then C1 and C3 set to partner.
B1 W1 hey between M2 and M1 whilst M3 hey between W2 and W3,
W1/M3 meet in centre of set and turn left-handed returning to place.
B2 All hey on your own side and all turn partners.

PART 3 - THE TURNINGS - TRO LLAW - (THE CROSS PART)

3.1

A All turn right-hand one and half times to improper side (fast),
All turn left-hand one and half times back to place.

B1 Cross hey, C1 only crossing, ALL turn two-handed at end (C1 half turn, C2/C3 full turn).

B2 Hey on your own. ALL turn two-handed at end (C1 half turn, C2/C3 full turn),
C1 FINISH IMPROPER.

3.2 - M1 & M3 WORKING

A M1 sets to W3, whilst M3 sets to W1 (C2 stepping back slightly),
M1 sets to M2, whilst M3 sets to W2.

B1 M1 and M3 hey between, M1 starting down passing W3 left, around W3 then around M2 right,
whilst M3 starting up passing W1 left, around W1 then around W2 right,
M1/M3 meet in centre of set and turn right-handed† forming…

B2 Circles - M1/W1/W2 forming top circle, M3/W3/M2 forming bottom circle,
Circle twice round to left, then into place, ALL turn partners two-handed, once round (C1 improper).

†M1/M3 may make a left-handed turn since there is no instruction given in the original, but the right-handed turn here makes for a smoother transition from the hey between and into the circles of 3.

3.3 - M1 & M2 WORKING

A C1 & C2 set to partner then, all except W1, turn to new position:-
W2 moves to W1 proper position, M2 moves to W2 proper position, M1 moves to M2 position,
M1 sets to M3 whilst M2 sets to W3.

B1 M1 and M2 Hey between, M1 going down outside M3, around M3 then around W1,
whilst M2 going down outside W3, around W3 then around W2,
M1/M2 meet in centre of set and turn two-handed half-way into...

B2 Circles (side by side, M2/M1 facing W's 'wall') - M2/M3/W1 & M1/W3/W2 twice round clockwise and then break, ALL return to original proper places and turn partners two handed once round.

ROUND O

May be included at the end of each of the three parts of the dance or just at the end as required.
May be danced to Sbonc Bogel or any suitable sixteen bar jig played AABB.

Starting with couples longways

A 4 bars All set to partner, then everyone turns to new positions, forming a circle:-
C1 change places,
M2 moves out slightly
M3 moves to W3 position,
W3 moves to W2 position (slightly out of set)
W2 moves to M3 position.
All men face the woman on their left.

i.e.	before		after	
			W3	
top	W1 W2 W3	M1		M3
of				
set	M1 M2 M3	W1		W2
			M2	

4 bars Men back to back (left shoulder) with the woman on their left.
B 4 bars Men turn the woman on their right (their partners this time) right hand one and a half times round.
4 bars Men move on and turn the next woman left hand once round, ending between the two women they have turned.

A 4 bars Men back to back (right shoulder) with the woman on their right.
4 bars Men back to back (left shoulder) with the woman on their left.
B 4 bars Men turn the woman on their right (one and a half).
4 bars Men move on and turn the next woman once round ending between the two women they have turned.

Repeat this once more walking the last left hand turn around their original partners back to their original longways set places.

Note that men always move on anticlockwise to new woman, whilst women retain position.

Acknowledgement

Thanks to
Ian Hughes, Robin Huw Bowen and Janet Hardy for their seminal work in developing the dances from the original manuscript,
Dafydd Thomas for preparing the extensive document with the detailed instructions,
Keith Floyd for arranging the music,
and to Parti Dawns Aelwyd Aberystwyth for checking the instructions

Gethin Roberts ©WFDS 2018

Aly Grogan

Traddodiadol



Larry Grogan

(Walsh) Tref./Arr. Keith Floyd



Larry Grogan

(MS John Thomas 1752) Tref./Arr. Keith Floyd



Sbonc Bogel

Tradd/Trad Trefn/Arr. CDdWC